Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mercher, 20 Tachwedd 2013**

Amser:
**09:00**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Leanne Hatcher**
Dirprwy Glerc y Pwyllgor
02920 898147
pwyllgor.CCLll@cymru.gov.uk

## Agenda

**Cyfarfod preifat cyn y prif gyfarfod 9.00 – 9.15**

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2 Sesiwn graffu ar Fasnachu mewn Pobl: Steve Chapman, Cydlynydd Atal Masnachu mewn Pobl (9:15 – 10:15) (Tudalennau 1 - 19)

Steve Chapman, Cydlynydd Atal Masnachu mewn Pobl

**Egwyl 10.15 – 10.30**

### 3 Sesiwn graffu ar Fasnachu mewn Pobl: Cynrychiolwyr o'r Fforwm Rheng Flaen Atal Masnachu mewn Pobl ar gyfer Cyrff Anllywodraethol yng Nghymru (10:30 – 11:30) (Tudalennau 20 - 23)

Bernadette Bowen Thomson, Dirprwy Brif Weithredwr, Cymru Ddiogelach

Mutale Merrill, Prif Weithredwr, BAWSO

Angelina Rodriques, Dirprwy Brif Weithredwr. BAWSO

**4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o gweddill y cyfarfod.**

**5 Trafod llythyr drafft: Ymchwiliad i'r rhwystrau i adeiladu cartrefi yng Nghymru (11:30-11:40)** (Tudalennau 24 - 30)

**6 Trafod adroddiad drafft: Y cynnydd o ran cydweithio ar lefel llywodraeth leol (11:40-12:10)** (Tudalennau 31 - 56)

**7 Trafod papur cwmpasu: Ymchwiliad i Dlodi (12:10-12:20)** (Tudalennau 57 - 59)

**8 Trafod papur cwmpasu: Ymchwiliad i Lyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru (12:20-12:30)** (Tudalennau 60 - 67)

**9 Papurau i'w nodi** (Tudalennau 68 - 83)

**Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol**

**CELG(4)-31-13 papur 1**

**Dydd Mercher 20 Tachwedd 2013**

**Masnachu Mewn Pobl**

1. **Rôl y Cydgysylltydd Atal Masnachu Mewn Pobl, ei effeithiolrwydd a'i lwyddiannau:**

**Rôl y Cydgysylltydd Atal Masnachu Mewn Pobl**

1.1 Mae ymdrin â masnachu mewn pobl yn gofyn am weithredu cyd-gysylltiedig sy'n torri ar draws terfynau pedair Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Cryfhawyd yr ymateb yng Nghymru trwy benodi Cydgysylltydd. Nod y rôl yw gwneud Cymru yn lle anodd i fasnachu mewn pobl ynddi a chydgysylltu'r gefnogaeth orau posibl i ddioddefwyr sydd wedi cael eu masnachu.

1.2 Llywodraeth Cymru yw'r unig Lywodraeth yn y Deyrnas Unedig sydd wedi penodi Cydgysylltydd. Deilliodd creu'r swydd o waith y Grŵp Trawsbleidiol ar Fasnachu Mewn Pobl, dan gadeiryddiaeth Joyce Watson AC. Roedd y swydd yn ymrwymiad yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru a bu mewn bodolaeth ers 4 Ebrill 2011. Stephen Chapman yw'r ail gydgysylltydd a daeth i'w swydd ym mis Tachwedd 2012.

1.3 Mae'r Cydgysylltydd yn rhan o'r Tîm Trais yn Erbyn Menywod a Cham-drin Domestig, ynr Is-adran Diogelwch Cymunedol Llywodraeth Cymru. Trwy hyn mae'r rôl yn cael ei hintegreiddio yn yr agenda Trais yn Erbyn Menywod a Cham-drin Domestig.

**Effeithiolrwydd a llwyddiannau**

1.4 Yn ei flwyddyn gyntaf, mae'r Cydgysylltydd presennol wedi llunio cyswllt gydag ystod eang o unigolion a sefydliadau, o sefydliadau datganoledig statudol ac anstatudol a Chyrff Anllywodraethol, i godi ymwybyddiaeth a chydlynu gweithgareddau diwnïad i ymdrin â masnachu mewn pobl yng Nghymru.

1.5 Sefydlwyd Grŵp Arwain Atal Masnachu Mewn Pobl Cymru gyda'r diben o gynnig arweiniad strategol ac mae wedi datblygu Cynllun Cyflawni i gefnogi'r gwaith o gyflawni nod Llywodraeth Cymru o'i gwneud yn anodd masnachu mewn pobl yng Nghymru a chynnig y gefnogaeth orau posibl i ddioddefwyr sydd wedi cael eu masnachu.

1.6 Dynodwyd casglu data a rhannu cudd-wybodaeth fel maes allweddol y dylid ei wella yn adroddiad blynyddol cyntaf y Grŵp Gweinidogol Rhyngadrannol ar Fasnachu Mewn Pobl a gyflwynwyd i'r Senedd yn

2012. Y grŵp hwn, dan gadeiryddiaeth Gweinidog Diogelwch y Swyddfa Gartref, sydd yn goruchwylio dull y Deyrnas Unedig o ymdrin â masnachu mewn pobl. Mae hyn yn cynnwys Strategaeth Masnachu Mewn Pobl Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r modd y mae'r Deyrnas Unedig yn cydymffurfio â gofynion yr Undeb Ewropeaidd a gofynion rhyngwladol.

1.7 Cafwyd cydnabyddiaeth i'r angen am sylfaen gadarn o dystiolaeth yng Nghymru. Credir mai dim ond cyfran fechan iawn o'r cyfanswm yw'r ffigwr presennol o 34 o gyfeiriadau a gofnodwyd yn nata Peirianwaith Cyfeirio Cenedlaethol (NRM) Canolfan Fasnachu Mewn Pobl y Deyrnas Unedig 2012. Yn 2009, cyflwynodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yr NRM, sy'n fframwaith amlasiantaeth a gynlluniwyd i asiantaethau sy'n ymwneud ag achosion masnachu mewn pobl gydweithredu, rhannu gwybodaeth am ddioddefwyr posibl a hwyluso mynediad at gefnogaeth iddynt. Cyfeirir dioddefwyr at y broses hon gan sefydliadau Ymatebwyr Cyntaf ac mae'r Awdurdod Cymwys (naill ai Canolfan Fasnachu Mewn Pobl y Deyrnas Unedig neu Adran Fewnfudo'r Swyddfa Gartref) yn penderfynu ar eu statws o ran masnachu mewn pobl.

1.8 Mae casglu sylfaen o dystiolaeth am raddfa masnachu mewn pobl yng Nghymru yn un o amcanion strategol y Grŵp Arwain. Mae'r Cydgysylltydd yn gweithio gyda phartneriaid i gynhyrchu 'setiau data cynradd ac eilaidd' fel sail i gasglu lefel y masnachu mewn pobl yng Nghymru. Y set data gynradd yw NRM y Deyrnas Unedig, y cyfeirir ato uchod, a'r nifer o achosion sy'n cael eu trin yn y System Cyfiawnder Troseddol. Mae Uwch Swyddog Ymchwil o Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith o ddynodi setiau data eilaidd.

1.9 Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi comisiynu 'Adolygiad o Wasanaethau Trais yn Erbyn Menywod, Trais Domestig a Rhywiol' ac mae masnachu mewn pobl wedi ei gynnwys yn ei gwmpas. Bydd yr Adolygiad hwn, sy'n cael ei gynnal gan Brifysgol Central Lancashire, yn rhoi adroddiad i'r Gweinidog erbyn diwedd 2013, a bydd y canfyddiadau yn cael eu cyhoeddi yn y flwyddyn newydd. Cyfetholwyd y Cydgysylltydd hefyd ar 'Grŵp Data Tasg a Gorffen' Grŵp Strategaeth ar y Cyd y Swyddfa Gartref sy'n datblygu'r dystiolaeth ar gyfer y Deyrnas Unedig.

1.10 Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych, Mohammed Mehmet, sy'n arwain ar fasnachu mewn pobl ar ran Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus (PSLG). Yn y rôl hon, mae'n parhau i godi ymwybyddiaeth o atal masnachu mewn pobl ymysg Prif Weithredwyr eraill ar draws Cymru.

1.11 Ym Mawrth 2013, sicrhaodd y Cydgysylltydd gytundeb gan Grŵp Adolygu NRM y Swyddfa Gartref, i'r sefydliadau o Gymru, Bawso a New Pathways, gael eu cydnabod fel sefydliadau sy'n Ymatebwyr Cyntaf. Bwriad hyn yw sicrhau, trwy roi'r gwaith hwn i ddau sefydliad Anllywodraethol, y bydd gan ddioddefwyr masnachu mewn pobl hyder i gyfeirio eu hunain at yr NRM. Yn ogystal â rhoi cefnogaeth i'r dioddefwyr yma trwy'r broses NRM, bydd y data yn cynnig cudd-wybodaeth y gellir ei

defnyddio i ddwyn y masnachwyr o flaen eu gwell ac yn cynorthwyo i gryfhau'r dystiolaeth.

1.12 Gan adeiladu ar lwyddiant Grŵp Ymgynghori Gwent ar Fasnachu Mewn Pobl, a sefydlwyd i ddwyn dull amlasiantaethl o ymdrin â masnachu mewn pobl yng Ngwent, sefydlwyd fforymau Atal Masnachu Mewn Pobl ar gyfer Caerdydd, De Cymru a Gorllewin y Bae. Diben y fforymau hyn yw rhannu 'arfer da' ar wybodaeth/cudd-wybodaeth a chyflawni cynlluniau 'lleol'. Mae fforymau Atal Masnachu Mewn Pobl yn cael eu datblygu ar gyfer Gogledd Cymru ac ardal Dyfed-Powys hefyd.

1.13 Gweithiodd y Cydgysylltydd gyda'r Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a phartneriaid eraill i ddatblygu rhaglen hyfforddi ar gyfer Uwch Swyddogion Ymchwilio. Mae'r rhaglen ddeuddydd, sy'n cael ei chyflwyno o 'Ganolfan Hydra' ym mhencadlys Heddlu De Cymru, yn cael ei chyflwyno i Uwch Swyddogion Ymchwilio, yn Heddlu De Cymru i gychwyn, ac yna ar draws y tri llu heddlu arall yng Nghymru. Mae Cymru yn arwain yn hyn o beth ac mae Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) wedi cydnabod y rhaglen hyfforddi fel 'arfer da' i'w raeadru ar draws y Deyrnas Unedig.

1.14 Mae'r Cydgysylltydd yn gweithio gyda chydweithwyr ar gynllun, dan arweiniad Gwasanaeth Erlyn y Goron, i gyflwyno Timau Ymchwilio ar y Cyd ar gyfer achosion masnachu mewn pobl. Mae'r partneriaid eraill yn cynnwys yr Asiantaeth Droseddau Genedlaethol, Mewnfudo'r Swyddfa Gartref ac Awdurdod Trwyddedu Arweinwyr Gangiau.

1.15 Ym Mawrth 2013, lansiodd ACPO 'Operation Eagle', cynllun parhaus i wella'r ymateb i fasnachu mewn pobl a throseddau mewnfudo cyfundrefnol. Amcan yr ymgyrch hon yw codi ymwybyddiaeth, cynyddu faint o wybodaeth a dderbynnir a gwella cydgysylltu a gweithgareddau gweithredol yr holl luoedd heddlu ar draws Cymru a Lloegr. Mae pedwar Llu Heddlu Cymru yn ymwneud â gweithrediadau ataliol, rhagweithiol atal masnachu mewn pobl. Mae'r Cydgysylltydd yn gweithio gydag Un Man Cyswllt ym mhob un o'r Lluoedd Heddlu ac yn helpu i rannu arfer da ar draws Cymru.

1.16 Fel rhan o Gynllun Cyflawni Grŵp Arwain Atal Masnachu Mewn Pobl Cymru, mae tudalennau Llywodraeth Cymru ar y we am Fasnachu Mewn Pobl wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru i roi un man cyswllt i gael gwybodaeth i weithwyr proffesiynol, ymarferwyr a'r cyhoedd. Y Cydgysylltydd sy'n gyfrifol am gynnal y tudalennau gwe a sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol ac wedi ei diweddaru.

1.17 Treialodd Fforwm Atal Masnachu Mewn Pobl Caerdydd eu Cynhadledd Asesu Risg Masnachu Mewn Pobl Amlasiantaeth gyntaf, ac yn dilyn yr ymateb cadarnhaol, mae'r broses hon yn cael ei defnyddio ar gyfer yr holl achosion o ddioddefwyr posibl masnachu mewn pobl yn y dyfodol. Arweinir y Gynhadledd Asesu Risg Masnachu Mewn Pobl Amlasiantaethol gan Bawso ac mae'n cynnwys nifer o bartneriaid o nifer o asiantaethau. Mae'r Cydgysylltydd yn rhaeadru'r 'arfer da' hwn i lawr ar draws Cymru.

1.18 Ym Mehefin 2013, trefnodd y Cydgysylltydd ymweliad gan Ymatebwyr Cyntaf NRM Cymru, Arweinydd Strategol pedwar Llu Heddlu Cymru a'r Mannau Cyswllt Unigol a Chydgysylltwyr Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru â Chanolfan Masnachu Mewn Pobl y Deyrnas Unedig. Roedd yr ymweliad yn cynnwys Cyfarfod Briffio ar Gudd-wybodaeth Masnachu Mewn Pobl yn y Deyrnas Unedig a Chymru gan Bennaeth Canolfan Fasnachu Mewn Pobl y Deyrnas Unedig, rôl y Cynghorwyr Tactegol, esboniad o broses yr NRM a'r gallu i siarad gyda'r staff am unrhyw broblemau.

1.19 I nodi Diwrnod Atal Caethwasiaeth (Dydd Gwener 18 Hydref 2013) cynhaliwyd Cynhadledd Atal Masnachu Mewn Pobl Gogledd Ddwyrain Cymru yn Wrecsam. Daeth dros 100 o ymarferwyr i'r gynhadledd hon a rhoddodd Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, y prif anerchiad.

## 2. Effeithiolrwydd gweithio amlasiantaeth rhwng adrannau llywodraeth y Deyrnas Unedig a Chymru a chyrff eraill fel byrddau iechyd a'r Heddlu:

2.1 Y Grŵp Gweinidogol Rhyngadrannol, y cyfeirir ato uchod, sy'n goruchwylio ymdrechion y Deyrnas Unedig i frwydro yn erbyn masnachu mewn pobl. Cadeirir y Grŵp gan Weinidog y Swyddfa Gartref dros Ddiogelwch ac mae'n cynnwys Gweinidogion o Adrannau Llywodraeth eraill yn San Steffan, Swyddfa Cymru a Swyddfa'r Alban, Llywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a Llywodraeth Cymru. O Lywodraeth Cymru, mae'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth a'r Cydgysylltydd Atal Masnachu Mewn Pobl yn mynd yno.

2.2 Cynrychiolir Cymru gan y Cydgysylltydd ar nifer o Grwpiau yn y Deyrnas Unedig: Bwrdd Lleihau Bygythiad y Deyrnas Unedig, a Bwrdd Strategaeth Masnachu Mewn Pobl y Deyrnas Unedig, Grŵp Strategaeth ar y Cyd y Swyddfa Gartref (Sefydliadau Anllywodraethol), Grŵp Adolygu Goruchwyliaeth yr NRM a Fforwm Rhannu Gwybodaeth Masnachu Mewn Plant y Swyddfa Gartref. Yn ychwanegol, mae'r Cydgysylltydd yn aelod o Grŵp Rheoli Ffiniau Cymru a nifer o grwpiau strategol a gweithredol allweddol eraill.

2.3 Bydd y Cydgysylltydd yn cyfarfod â Swyddogion o'r Swyddfa Gartref, y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Llywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a phartneriaid eraill yn y Deyrnas Unedig yn gyson i drafod a rhannu arfer da wrth ymdrin â masnachu mewn pobl.

2.4 Mae'r Cydgysylltydd yn gweithio yn agos gyda phedwar Llu Heddlu Cymru, yr Asiantaeth Droseddau Genedlaethol ac asiantaethau eraill sy'n gorfodi'r gyfraith. Mae hyn yn cynnwys Arweinydd Strategol ACPO Cymru a Lloegr ar Droseddau Mewnfudo a Materion Cysylltiedig, Shaun Sawyer Prif Gwnstabl Heddlu Dyfnaint a Gwlad yr Haf. Jeff Farrar, Prif

Gwnstabl Heddlu Gwent, sy'n arwain yng Nghymru i sicrhau bod pedwar Llu Heddlu Cymru yn cydweithio.

2.5 Nod ACPO yw sicrhau y bydd gweithgareddau'r heddlu ar fasnachu mewn pobl yn gwneud y Deyrnas Unedig yn lle anos i fasnachwyr mewn pobl, y rhai sy'n hwyluso hynny a'r rhai sy'n manteisio ar hynny i weithredu. Fel y nodir yn ein hymateb i gwestiwn 1 uchod, fel rhan o 'Operation Eagle', dynodwyd Mannau Cyswllt Strategol a Sengl yn yr holl Luoedd Heddlu i arwain ar wella ymateb yr Heddlu i fasnachu mewn pobl. Sicrhaodd y Cydgysylltydd bod 'arfer da' yn cael ei rannu trwy ddwyn aelodau sy'n arwain ar 'Operation Eagle' o bedwar Llu Heddlu Cymru at ei gilydd.

2.6 Cynrychiolir yr Heddlu, Byrddau Iechyd ac Adrannau eraill Llywodraeth Cymru ar Grŵp Arwain Atal Masnachu Mewn Pobl Cymru a'r Fforymau Atal Masnachu Mewn Pobl Rhanbarthol.

**3. Rôl Awdurdodau Lleol wrth ddynodi a chodi ymwybyddiaeth:**

3.1 Fel y nodir uchod, dynodwyd Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych, Mohammed Mehmet, yn arweinydd PSLG ar Atal Masnachu Mewn Pobl. Mae Mr Mehemet, fel cynrychiolydd Gogledd Cymru ar y PSLG, yn hyrwyddo gwaith ar Ynys Môn i Brif Weithredwyr Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru ac yna gyda Phrif Weithredwyr holl Awdurdodau Lleol Cymru, i gefnogi nod Llywodraeth Cymru o wneud Cymru yn anodd i fasnachwyr mewn pobl ac i gefnogi dioddefwyr sydd wedi cael eu masnachu.

3.2 Cefnogodd Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych Brif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn, ar gais llwyddiannus i Gronfa Gydweithredu Ranbarthol Llywodraeth Cymru, am Gydgysylltydd Atal Masnachu Mewn Pobl i Ogledd Cymru. Penodwyd Cydgysylltydd Rhanbarthol Gogledd Cymru ym mis Hydref 2013.

3.3 Mae'r Cydgysylltydd, ar y cyd â Chydgysylltwyr Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru yn y 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru, yn darparu hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o fasnachu mewn pobl, esbonio sut i roi adroddiad am ddigwyddiadau a sut i gyfeirio dioddefwyr at Ganolfan Masnachu Mewn Pobl y Deyrnas Unedig trwy ddefnyddio'r NRM.

**4. Sut mae argymhellion adroddiad Cyngor Ewrop 2012 'GRETA' ac adroddiad SOLACE 2009 ar fasnachu mewn pobl yn cael eu symud ymlaen a chynlluniau ar gyfer gwaith yn y dyfodol:**

4.1 Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad GRETA y Grŵp o Arbenigwyr ar Weithredu yn erbyn Masnachu Mewn Pobl *'Concerning the implementation of the Council of Europe Convention on Action Against Trafficking in Human Beings by the United Kingdom 2012'* yw gweithio gyda phartneriaid i gyflwyno ac adeiladu ar yr argymhellion. Rhoddir

manylion am effeithiolrwydd yr ymateb hwn a'r llwyddiannau hyd yn hyn uchod.

4.2 Mae rôl 'Hyrwyddwr' Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych yn cynnwys atgyfnerthu ymwybyddiaeth o adroddiad SOLACE 2009 '*The role of Local Authorities in addressing human trafficking*'.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Communities, Equality and Local Government Committee**

**CELG(4)-31-13 Paper 2**

**Human Trafficking**

**About Bawso**

Bawso was set up in 1995 to primarily deliver specialist services to BME communities who are vulnerable. It now delivers training programs to women and children through women's workshop projects. Bawso currently supports more than 3000 people annually this includes women, children, men and young people. It o has **14** it has projects delivering preventative programs, and support projects that specialise in Domestic Abuse, Forced Marriage, Female Genital Mutilation, Honour Based Violence and Human Trafficking all these projects focus on working with vulnerable people to live independently.

Human trafficking is an abuse of human rights and over the recent years Bawso has been identifying victims through its existing projects and established a need to develop a project for human trafficking in Wales. In March 2009 it was announced that the UK Government was to expand their support services for victims of trafficking. This increased the number of beds available nationally from 35 to 54. From this Bawso was awarded a grant for two years to develop the first human trafficking project in Wales which is called Diogel.

In July 2011 the Salvation Army attained the UK trafficking contract and contracted Bawso to continue providing support for victims of human trafficking in Wales. Due to identified needs the project expanded from **6** to **10** units of accommodation and **20** outreach units under which both men and women can be supported. Through the assessment of needs we submitted a proposal to WAG for additional accommodation which we received and were able to provide extra 3 units of accommodation in North Wales.

Since inception the Diogel projects in Wales have supported **47** individuals who have been trafficked for Sexual Exploitation, Labour Exploitation and Domestic Servitude.

**Response to Questions**

**1. The role of the Wales Anti-Human Trafficking Co-ordinator, including its effectiveness and achievements so far**

The Anti-Human Trafficking Co-coordinator role is to make Wales a hostile place for Human Trafficking to exist and to coordinate the best possible support for the victims of trafficking in Wales. This includes raising the profile of human trafficking across Wales, through multi-agency working and by coordinating organisational response. To Provide an evidence base on the scale of human trafficking in Wales and be a central point on matters relating to human trafficking in Wales. The role of the AHTC is also identifying where developments are taking place and effects on other relevant policies or strategies.

The effectiveness and achievements of the AHTC so far has been the coordination of initiatives to tackle human trafficking by forming a leadership group which brings together representatives from key agencies (Police, Health, Education, Social Services, CPS and the third sector).

Information is provided to agencies of the scale, types and location of human trafficking in Wales which has improved the sharing of intelligence and recording of incidents using the National Referral Mechanism (NRM) and cases within the Criminal Justice System.

The AHTC is working with partners to develop a better 'evidence base' which reflects the level of human trafficking. The recent commitment by WG to establish the post of Regional Anti Human trafficking Co-ordinators across Wales will ensure that the breadth of Wales is covered.

Bawso and New Pathways were designated as first responders in 2012 as a result of the AHTC input.

The profile of Human Trafficking has been raised by the appointment of the AHTC and over the last year we have seen an increase of trafficked victims accessing our trafficking project Diogel.

There is clear evidence of collaboration through the four regions in Wales by the setting up of Regional Human Trafficking Forums.

Two conferences have been held in North and South Wales to raise awareness and two more are planned for 2014.

The AHTC is placed with the VAWDA team within community safety which ensures better integration with the VAWDA agenda.

Awareness raising sessions are being delivered to key stakeholders across Wales. For example Local authorities, Police, Criminal Justice and third sector organisation

**2.The effectiveness of multi-agency working between UK and Welsh Government departments and other bodies such as health boards and the police;**

The AHTC has provided leadership to ensure that there is multi-agency work between Welsh agencies with national ones. Delivering a Wales day at the UKHTC in Birmingham was beneficial to build practitioners' understanding of HT as well as gain useful insights of patterns and trends.

There is a lot of evidence to demonstrate of close collaboration with the police. However, engagement with other departments such as health and education is lacking. Collaboration with agencies in departments such as health and education is vital because in some instances they are the first port of call for victims of trafficking.

**3. The role of local authorities in identification and awareness raising; and**

Local authorities can play a pivotal role in the fight against human trafficking through by including it on the agenda. A good practice example of where this has taken place is Cardiff. Following an enquiry into Human Trafficking in 2010, the local authority initiated further scoping of the issue which culminated in the appointment of a named person to lead on the work stream. Consequently, a Cardiff Multi-Agency Anti-Human Trafficking Forum was established in summer 2012 to facilitate and develop integrated working arrangement focusing on victim identification and support as well as prevention of human trafficking. To date the forum has established a Multi-Agency Human Trafficking Response Task Group and developed a localised Response Pathway. The forum has also developed a human trafficking dissemination and training strategy which took effect in July 2013 by rolling out a series of Master Classes for practitioners. The next stage in the training will be delivery of raising awareness training to front line staff. It would greatly benefit other LA to emulate the work being done in Cardiff.

4. **How the recommendations of the Council of Europe 2012 'GRETA' report and the 2009 SOLACE report on human trafficking are being taken forward and plans for future work**

Wales is clearly a leader in delivering in the fight against human trafficking. The appointment of the only AHTC in the UK attests to its commitment to making Wales a hostile place for traffickers. However, it sometimes encounters challenges due to the complex nature of devolved and none devolved powers. For example, in the field of action against human trafficking, criminal law and victim care are devolved matters, whereas border and immigration control, including the identification of trafficking victims, are reserved matters dealt with by the central UK government. Education and health which are linked to the prevention of human trafficking, the protection of, and assistance to victims of trafficking are also devolved.

CPS in Wales has demonstrated commitments improve the effectiveness of investigations and prosecutions human trafficking related offences. They have developed training on human trafficking for investigators which in consultation with third sector organizations.

There are clear procedures for child victims of human trafficking, unless age disputes occur. However the situation is different for adult victims where there is a postcode lottery of services to some extent. For example there is no accommodation provision for male victims of trafficking who are 40% of the cases.

In addition, whereas there seems to be reasonable provision of accommodation and other physical requirements, however access to qualified counselors specializing in this area remains a challenge. Our experience as an organization shows that it is extremely difficult to access specialist counseling for victims because of very long waiting lists. In some instances Bawso has had to access such services from the Helen Bamber Foundation in London, which has resources implications. Best practice can be obtained from Scotland where a psychiatrist is attached to the TARA project to not only provide emotional support to victims, but also to build knowledge and understanding of the impact of trafficking.

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 8

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Jeff Cuthbert AC / AM**
**Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**
**Minister for Communities and Tackling Poverty**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Christine Chapman AC/AM
Cadeirydd - Pwyllgor Cymunedau,
Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd

Tachwedd 2013

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2014-15**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 29 Hydref 2013 yn amlinellu casgliad eich gwaith craffu. Roeddwn yn ddiolchgar am y cyfle i ddod i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Hydref a thrafod y materion ychwanegol o'ch llythyr yn y gorchymyn a godwyd.

***Blaenoriaethau cyffredinol***

<u>Dechrau'n Deg</u>

Yn anffodus, ni chaiff y data penodol y gofynnoch amdanynt eu casglu ar y ffurf honno. Fodd bynnag, gallwn amlinellu cyrhaeddiad Dechrau'n Deg â ffigyrau ynghylch y gyfran o blant dan 4 oed yn ardaloedd Dechrau'n Deg sydd wedi elwa ar (wedi cael) Gwasanaethau Dechrau'n Deg yn ystod 2012-13 – gweler Atodiad 1 isod. Cyhoeddwyd rhagor o ddata crynodol ynghylch rhaglen Dechrau'n Deg am y tro cyntaf yn natganiad Ystadegau Crynodol Dechrau'n Deg 2012-13. Mae Ffigyrau nifer y plant sy'n elwa ar Ddechrau'n Deg ar sail Cymru gyfan ac Awdurdodau Lleol ar gael yn Nhabl 1 ar dudalen 14.

http://wales.gov.uk/statistics-and-research/?skip=1&lang=cy

Fe wnaeth y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc graffu ar waith y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi a minnau ynghylch rhaglen Dechrau'n Deg fel rhan o'u gwaith o ystyried y Gyllideb Ddrafft.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.jeff.cuthbert@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Dyraniadau

Fel llywodraeth, rydym wedi nodi'r angen i ymwreiddio holl feysydd allweddol fy mhortffolio trechu tlodi, hawliau plant, cydraddoldeb a datblygu cynaliadwy yng ngwaith pob adran. Mae fy swyddogion yn canolbwyntio ar integreiddio'r ystyriaethau hyn fel rhan o waith datblygu polisi a dyraniadau ariannol o fewn fy mhortffolio, yn ogystal â chydlynu a chefnogi camau gweithredu a gymerir ar draws y llywodraeth.

Mae ein holl bolisïau a'n rhaglenni yn adlewyrchu ein hymroddiad i gynaliadwyedd a thegwch. Mae asesiadau effaith yn ddull effeithiol i'r Gweinidogion ddeall oblygiadau eu penderfyniadau ynghylch gwariant. Gofynnwyd i bob Gweinidog asesu effaith y rhain ar feysydd eu dyraniadau cyllid a'u hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu. Fe wnaeth fy swyddogion weithio gyda swyddogion Cyllidebu Strategol i gydgysylltu'r cyfraniadau at drechu tlodi, cydraddoldeb, datblygu cynaliadwy a hawliau plant, a chynnig trosolwg o'r rhain yn naratif yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Serch hynny, fel rhan o brif ffrydio, fe wnaeth pob Gweinidog barhau i fod yn gyfrifol am wneud dyraniadau sy'n cael eu llywio gan yr effaith ar ddatblygu cynaliadwy, trechu tlodi, cydraddoldeb a hawliau plant.

Amcanion y Rhaglen Lywodraethu yw amcanion craidd y sefydliad, a dyma sydd wrth wraidd y penderfyniadau a wnawn a'r polisïau a ddatblygir gennym. Yng nghanol hyn, mae pwyslais ar bobl a'n hymroddiad i gefnogi datblygiad cymdeithas decach â phwyslais ar les cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, gan ymgorffori ein gwerthoedd o degwch a chyfiawnder cymdeithasol; mae cydraddoldeb yn hanfodol i hyn ac yn rhan annatod o'r rhaglenni yn ogystal â Phennod 8, "Cydraddoldeb". Yn y Cabinet, rydym wedi trafod pwysigrwydd asesu effaith ein penderfyniadau ar gydraddoldeb, anfanteision cymdeithasol-economaidd a chynaliadwyedd tymor hir, ac rydym yn cydnabod pwysigrwydd ymgorffori hyn yng ngwaith paratoi ein cyllideb o'r dechrau. Mae Gweinidogion hefyd wedi cysoni eu cynlluniau gwario i gefnogi'r amcanion sydd wedi'u hamlinellu yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Rhaglen Lywodraethu, sy'n pennu'r canlyniadau y dymunwn eu sicrhau i bobl a chymunedau ar draws Cymru.

***Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi***

Mae'r Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi yn amlinellu sut bydd Llywodraeth Cymru yn targedu adnoddau ar draws portffolios ac adrannau gwahanol i atal tlodi, cynorthwyo pobl i ganfod gwaith a lliniaru effeithiau tlodi. Mae'r Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi yn cadeirio Bwrdd Gweithredu sy'n cynnwys Cyfarwyddwyr Cyffredinol yr holl adrannau, ac sy'n atebol am y targedau a'r cerrig milltir sydd yn y Cynllun.

Un o'r dulliau mwyaf effeithiol o atal tlodi yw atal plant tlawd rhag dod yn oedolion tlawd. Rydym yn cydnabod fod cyrhaeddiad addysgol plant tlawd yn tueddu i fod yn sylweddol is na phlant eraill. Mae hyn yn annerbyniol. Dyna pam mae'r Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi wedi gosod targedau wedi'u hanelu at leihau'r bwlch mewn cyrhaeddiad addysgol. Yn y gyllideb ddrafft, rydym yn cefnogi'r targedau hyn trwy fuddsoddi £11m yn ychwanegol yn Dechrau'n Deg erbyn 2016, dyblu'r gefnogaeth sydd ar gael trwy'r Grant Amddifadedd Disgyblion a cheisio cydlynu rhaglenni i dargedu'r teuluoedd hynny sy'n byw mewn tlodi yn llwyddiannus.

Mae holl Weinidogion ac adrannau Llywodraeth Cymru wedi ymroddi i drechu tlodi. Mae'r cyfrifoldeb am dargedau a cherrig milltir y Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi yn cwmpasu naw adran, sy'n adlewyrchu ehangder yr agenda trechu tlodi a'r ymroddiad i hyn ar draws y llywodraeth. Er enghraifft, mae gwaith yn mynd rhagddo yn yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i leihau anghydraddoldebau iechyd trwy gynlluniau megis Archwiliadau Iechyd i Bobl dros 50 Oed. Mae'r Adran Tai ac Adfywio yn sicrhau fod cyllid ar gael i ysgogi rhaglenni adfywio, â blaenoriaeth i gymunedau difreintiedig. Bydd cymorth grantiau sydd ar gael i fusnesau gan yr Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn cyflwyno pwysoliadau cadarnhaol i ddarparu ar gyfer effaith cynorthwyo grwpiau anoddach eu cyrraedd i ddychwelyd i weithio.

***Cymunedau yn Gyntaf***

Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am ragor o fanylion ynghylch trefniadau monitro newydd Cymunedau yn Gyntaf. Amlinellir y dull sylfaenol yn y detholiad o Ganllawiau Rhaglen 2013 yn Atodiad 2.

Mae'r Fframwaith Canlyniadau hefyd wedi'i gyhoeddi fel Atodiad 5 Canllawiau 2013. Mae Atodiad 6 yn darparu cyngor manwl i Glystyrau ynghylch datblygu eu Cynlluniau Cyflawni. Mae'r ddau atodiad ar gael yn:

*http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/regeneration/communitiesfirst/information-and-updates/guidance/?skip=1&lang=cy*

Fel mae'r Canllawiau yn datgan yn glir, mae Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn defnyddio dull Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau i fynd i'r afael â thri Chanlyniad Cymunedau Ffyniannus, Cymunedau Dysgu a Chymunedau Iachach. Mae'r dull hwn yn gwahaniaethu'n hanfodol rhwng y canlyniadau i boblogaethau cyfan sy'n byw yn unrhyw ardal Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf a'r canlyniadau i gyfranogwyr rhaglen, gweithgarwch neu wasanaeth penodol.

Caiff Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf eu monitro yn erbyn set o Fesurau Perfformiad Cyffredin sy'n monitro lefel ymdrech, ansawdd ac – yn bwysicaf oll – y gwelliannau i gyfranogwyr unrhyw weithgarwch Cymunedau yn Gyntaf. Y mesurau perfformiad pwysicaf yw'r rhai sy'n dangos inni a yw unigolion yn well eu byd yn sgil cyfranogi yn rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

Er bod y rhaglen yn genedlaethol yn ceisio mynd i'r afael â'r tri Chanlyniad hyn, mae gan Glystyrau unigol yr hyblygrwydd i ganolbwyntio eu hymdrechion yn lleol ar y meysydd gwaith y maent yn credu y gallant wneud y gwahaniaeth mwyaf iddynt. Mae'r elfen o ddewis yn hanfodol i warchod elfen ffocws cymunedol y rhaglen; dyma'r elfen fwyaf unigryw o'n defnydd o'r model Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r dewisiadau a wneir gan Glystyrau fod o fewn Fframwaith Cyffredinol Cymunedau yn Gyntaf, a rhaid i Lywodraeth Cymru gymeradwyo eu holl weithgarwch i gyfrannu'n glir at y tair thema a nod gyffredinol Trechu Tlodi. Yn ychwanegol, bellach, bydd gweithgarwch tebyg mewn Clystyrau tebyg yn cael ei fesur gan ddefnyddio dangosyddion cyson, er mwyn adrodd yn haws am effaith gyffredinol y rhaglen. Felly, nid yw'n hollol gywir i ddweud y gall Clystyrau "ddiffinio'r canlyniadau a ddefnyddir ganddynt i fesur llwyddiant". Mae'r

hyblygrwydd sydd ganddynt yn y cyd-destun hwn wedi'i gydbwyso yn erbyn gofynion y rhaglen yn gyffredinol a disgwyliadau Llywodraeth Cymru.

Bellach, caiff data o'r Cynlluniau Cyflawni a diweddariadau cynnydd chwarterol eu hanfon at Lywodraeth Cymru gan bob Clwstwr, trwy eu Cyrff Cyflawni Arweiniol priodol. Byddwn yn cychwyn cyhoeddi adroddiadau perfformiad cyn gynted ag y bo modd. I fod yn deg, cafodd y Clystyrau eu sefydlu yn ddiweddar iawn, ac mae angen inni sicrhau fod digon o ddata ar gael i ganiatáu dadansoddi a chymharu ystyrlon cyn i'r wybodaeth hon fod ar gael yn ehangach. Serch hynny, rydym yn disgwyl y caiff yr wybodaeth hon ei chyhoeddi ynghylch y rhan fwyaf o Glystyrau o leiaf erbyn dechrau 2014. Bydd y data a gyhoeddir yn seiliedig ar fformat Atebolrwydd sy'n Seiliedig ar Ganlyniadau ac yn dangos y llwyddiannau cyfredol mewn perthynas â gweithgarwch cytûn pob Cynllun Cyflawni, a chânt eu trefnu o dan brif themâu'r rhaglen, sef Cymunedau Ffyniannus, Cymunedau Iachach a Chymunedau Dysgu.

Rydym hefyd yn ymwybodol o'r angen i sicrhau na fydd gofynion monitro ac adrodd yn dod yn rhy feichus i'r graddau y byddant yn llesteirio prif waith y Timau Cyflawni ac yn lleihau effeithiolrwydd y rhaglen. Yn gyffredinol, credwn fod y trefniadau monitro newydd yn gadarn a phriodol.

Nodir cais y Pwyllgor am ddiweddariad ynghylch gwerthusiad y rhaglen sydd i'w gynnal yn 2014.

***Diwygio Lles***

Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau fod y Gronfa Cymorth Dewisol yn gallu cefnogi ein pobl fwyaf agored i niwed. Mae'r gwaith o wella ymwybyddiaeth wedi bod yn canolbwyntio ar sicrhau fod gan y sefydliadau Statudol a Thrydydd Sector sy'n cynghori ac yn cynnig arweiniad i gleientiaid ar draws Cymru wybodaeth am y gwasanaeth. I gefnogi hyn, o dan y contract, mae Cronfa'r Teulu yn cyflogi Rheolwyr Partneriaethau sy'n hyrwyddo'r cynllun ymhlith sefydliadau sy'n gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed. Mae Rheolwr Partneriaethau'r Gronfa Cymorth Dewisol hefyd yn gweithio i sefydlu rhwydwaith amrywiol o bartneriaid sy'n cynnwys sefydliadau sydd eisoes yn gweithio gyda chleientiaid agored i niwed sy'n cyflwyno ceisiadau. Fe wnaiff hyn gynorthwyo pobl y mae angen cymorth y Gronfa arnynt ond nad ydynt yn gallu cyflwyno cais eu hunain. Mae 250 o bartneriaid ar hyn o bryd, ac wrth i Rwydwaith Partneriaid y Gronfa Cymorth Dewisol ddod yn fwy sefydledig, ceir rhagor o atgyfeiriadau gan Sefydliadau Partner ar ran cleientiaid sy'n agored i niwed.

***Y Trydydd Sector***

Mae llawer o'r ffrydiau ariannu y mae'r Trydydd Sector yn dibynnu arnynt yn gymhleth, a cheir cyllid o sawl ffynhonnell leol, genedlaethol a rhyngwladol. Mae cyllid Llywodraeth Cymru yn rhan bwysig o'r darlun ehangach hwn.

Ar hyn o bryd, mae arbedion Llywodraeth y DU ac awdurdodau lleol yn niweidio llawer o sefydliadau'r Trydydd Sector. Bydd galw am eu gwasanaethau yn codi'n aml ar yr un pryd. Mae gweinidogion a swyddogion wedi gweithio i sicrhau fod y Sector yn gwybod na ellir ei warchod yn llwyr rhag y penderfyniadau anodd y bu'n rhaid i Weinidogion eu gwneud wrth lunio eu cynlluniau gwario.

Nid oes asesiad o effaith y lleihad hwn mewn gwariant ar wasanaethau statudol a ddarperir gan y Trydydd Sector ar gael ar hyn o bryd, oherwydd nid ydym yn coladu gwybodaeth ynghylch ffocws darpariaeth sefydliadau Trydydd Sector trwy'r dull hwn. Fodd bynnag, mae'r Trydydd Sector yn ddarparwr gwasanaethau gwerthfawr, pa un ai a ydynt yn statudol neu beidio, ac nid yw'n glir y gall y toriadau yn y gyllideb effeithio ar eu gallu i gyflawni. Yr hyn allwn ni ei wneud yw lliniaru'r effaith hwnnw lle bynnag y gallwn wneud hynny.

Rydym wedi cynyddu ein pwyslais ar sicrhau fod cyllid grantiau wedi'i reoli'n dda trwy'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau. Ymhen ychydig, byddwn yn cyhoeddi Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector wedi'i ddiwygio'n llawn, a bydd yn cynnwys canllawiau ychwanegol ynghylch modelau comisiynu a ddefnyddir i bennu'r dull mwyaf priodol o gyllido'r gweithgarwch a ddymunir. Bydd y Cod hefyd yn amlinellu'r egwyddorion y dylid eu dilyn gan gyrff cyhoeddus sy'n gweithio gyda'r Trydydd Sector ac yn ei gyllido.

Cyhoeddir rhagor o wybodaeth yn y dyfodol agos ynghylch canlyniad yr ymgynghoriad ar Barhad a Newid – Perthynas Llywodraeth Cymru â'r Trydydd Sector, ac fe wnaf gyflwyno adroddiad ar y cyfle cyntaf wedi hynny.

***Cydraddoldeb***

Dyfernir y cynllun grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant o fis Ebrill 2014 ymlaen am gyfnod o dair blynedd. Pwrpas y cynllun yw ariannu sefydliadau'r trydydd sector i gyfrannu at weithredu blaenoriaethau cydraddoldeb strategol Llywodraeth Cymru, yn enwedig amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Sengl yn nodi wyth amcan cydraddoldeb y cytunwyd arnynt wedi ymgynghori sylweddol â chyrff allanol, yn cynnwys y Trydydd Sector. Bydd angen i sefydliadau llwyddiannus gyflwyno adroddiadau monitro chwarterol ac asesir y rhain gan swyddogion cyn rhoi arian iddynt. Yn ychwanegol, trefnir rhaglen o ymweliadau monitro, ac ymwelir â phob sefydliad o leiaf unwaith yn ystod oes y rhaglen. Mae fy swyddogion yn gweithio gyda'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi i ystyried beth yw'r dull gorau o werthuso effaith y cynllun grant.

***Cynhwysiant Ariannol ac undebau credyd***

Fe wnaethoch ofyn am gadarnhad o'r cyllid sydd ar gael i Undebau Credyd. Cynigwyd y cyllid ychwanegol i'r sector yn ystod 2013/14, a defnyddir £1.25m i gyflymu twf Undebau Credyd, yn ddibynnol ar gael achos busnes derbyniol. Yn ychwanegol, defnyddiwyd £612,000 i ymestyn y Prosiect Mynediad i Gynhyrchion Ariannol trwy Undebau Credyd am chwe mis, o Fedi 2013 tan fis Mawrth 2014. Mae'r arian a ddarperir i ymestyn y prosiect yn gyson â lefel y cymorth a roddwyd tan Fedi 2013 o dan y prosiect blaenorol a ariannwyd gan WEFO.

Ar gyfer 2014-15, cynhwysir dyraniad o £650,000 yn y gyllideb ddrafft ar gyfer Undebau Credyd. Dyrannwyd yr arian hwn cyn gwneud unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol ynghylch cymorth Llywodraeth Cymru i undebau credyd o 2014-15, ac efallai y caiff ei newid. Mae'r arian a ddarparwyd gennym i Undebau Credyd hyd yn hyn wedi canolbwyntio ar alluogi'r sawl sydd wedi'u hallgau yn ariannol i gael mynediad at gynhyrchion ariannol fforddiadwy. Hyd yn hyn, mae'r prosiect wedi cynorthwyo 20,308 o oedolion yn hyn o beth.

Mae Undebau Credyd yn rhan bwysig o gefnogi ein hymdrechion i drechu tlodi a helpu'r bobl fwyaf agored i niwed sydd wedi'u hallgau yn ariannol. Felly, yn y cyswllt hwn, bydd rhaid i unrhyw gyllid yn y dyfodol geisio adeiladu ar y gwaith rydym eisoes wedi'i wneud i sicrhau fod y cymorth priodol ar gael i bobl, yn enwedig cyn iddynt geisio gwasanaethau cwmnïau eraill.

***Datblygu Cynaliadwy***

Darllenwch fy ymateb o dan 'Blaenoriaethau cyffredinol – Dyraniadau' uchod, os gwelwch yn dda.

***Dyraniadau Cyfalaf***

Rwy'n falch iawn o'ch hysbysu fod gwerthusiad o'r Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol yn cael ei gynllunio, a bydd yn digwydd. Gallaf hefyd eich hysbysu ein bod yn datblygu prosesau i fonitro a gwerthuso'r cynllun newydd hwn, a fydd yn defnyddio Atebolrwydd yn seiliedig ar Adnoddau i fesur canlyniadau. Wrth gwrs, fe wnaf eich hysbysu am unrhyw ddatblygiadau.

Ynghylch Sipsiwn a Theithwyr, mae eich llythyr yn holi pa waith a wnaed i asesu'r buddion i blant a theuluoedd. Darperir y dystiolaeth gan sawl darn o waith ymchwil a wnaed yng Nghymru sy'n pwysleisio pwysigrwydd llety sefydlog a digonol i wella canlyniadau o'r fath ac enghreifftiau o sut mae'r Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr wedi hwyluso mynediad at y gwasanaethau hyn.

Mae adroddiad Estyn '*Addysg Disgyblion Sipsiwn-Deithwyr: y diweddaraf am y ddarpariaeth mewn ysgolion uwchradd'* (2011) yn datgan yn glir ei bod yn bwysig i weithwyr proffesiynol addysg allu datblygu perthnasau sefydlog ac ymddiriedus â theuluoedd, a chânt eu gwella trwy gynyddu nifer y safleoedd awdurdodedig sydd ar gael. Er enghraifft, eleni, mae'r Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr wedi'i ddefnyddio gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr i ddarparu "adnodd dosbarth rheolaidd a...gellid ei ddefnyddio i gynnal gwaith estyn allan, gwaith cymorth, cylchoedd chwarae, lle tawel i blant wneud gwaith cartref, addysg oedolion, darpariaeth cyn ysgol neu glinigau iechyd". Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn sicrhau fod yr adnodd yn darparu cyfleoedd o'r fath ar ôl ei agor.

Mae mater rhwystrau rhag gofal iechyd i'r sawl sydd heb lety parhaol wedi'u codi mewn sawl adroddiad, yn cynnwys adroddiad Pwyllgor Cyfleoedd Cyfartal Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *'Adolygiad o'r Gwasanaethau a Ddarperir i Sipsiwn a Theithwyr'* (2003) ac astudiaeth iechyd ASERT Llywodraeth Cymru (2006). Yn ystod yr achos diweddar o'r Frech Goch, fe wnaeth awdurdodau iechyd lleol roi brechiadau MMR rhag afiechydon heintus ar safleoedd awdurdodedig Sipsiwn a Theithwyr, ac roedd hynny'n llwyddiannus. Os caiff safleoedd ychwanegol eu creu gan y Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, bydd Llywodraeth Cymru yn monitro bodolaeth mentrau estyn allan.

Er nad diffyg safleoedd yw'r unig rwystr rhag cydlyniant cymunedol llwyddiannus, credwn fod hynny yn gam mawr i'r cyfeiriad iawn. Er bod darparu safleoedd yn galluogi aelodau cymunedau i ddefnyddio cyfleusterau lleol, mae'n bwysig hefyd fod gwahaniaethu a rhwystrau eraill yn cael eu herio wrth wneud hynny.

Yn anffodus, mae llawer o'r safleoedd a adeiladwyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru wedi'u lleoli ymhell o'r gymuned ehangach. Nid yw hyn yn ddefnyddiol o ran trechu anghydraddoldeb ac arwahanrwydd. Adeiladwyd yr olaf o'r safleoedd hyn yn 1997. Yn 2009, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gyhoeddi ei Ganllaw Arfer Da o ran Dylunio Safleoedd Sipsiwn-Teithwyr. Mae'r canllawiau yn datgan yn glir fod angen cysylltu safleoedd â chymunedau i wella cydlyniant cymunedol.

Tan 2013-14, dim ond ar gyfer prosiectau adnewyddu, nid adeiladu safleoedd newydd y defnyddiwyd y Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Felly, nid ydym wedi gallu cryfhau'r sail tystiolaeth ynghylch y cysylltiadau rhwng safleoedd newydd a gwelliannau mewn cyrhaeddiad addysgol a phresenoldeb, mynediad at ofal iechyd ac ati hyd yn hyn. Fodd bynnag, rydym yn obeithiol y gellir cymeradwyo ac adeiladu safleoedd ychwanegol newydd dros y blynyddoedd nesaf, a bydd sicrhau y gall prosiectau arddangos canlyniadau positif yn rhan allweddol o benderfyniadau ariannu.

Yn olaf, gallaf gadarnhau y gellir defnyddio'r Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr i wella a/neu ddarparu safleoedd tramwy. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw safleoedd tramwy yng Nghymru, ac un llain tramwy yn unig sydd ar safle Torfaen.

**Jeff Cuthbert AC / AM**
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Minister for Communities and Tackling Poverty

**Dangosyddion dethol yn ôl Awdurdod Lleol, 2012-13**

http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/health2013/flying-start-summary-statistics-2012-13/?lang=en

| Awdurdod Lleol | Poblogaeth 0-3 oed (a) | Nifer y plant sy'n elwa (yn cael gwasanaethau)(b) | Canran y boblogaeth 0-3 oed (%) |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 3,204 | 459 | 14.3 |
| Gwynedd | 5,436 | 640 | 11.8 |
| Conwy | 4,683 | 752 | 16.1 |
| Sir Ddinbych | 4,302 | 887 | 20.6 |
| Sir y Fflint | 7,251 | 954 | 13.2 |
| Wrecsam | 7,187 | 887 | 12.3 |
| Powys | 5,168 | 525 | 10.2 |
| Ceredigion | 2,686 | 414 | 15.4 |
| Sir Benfro | 5,402 | 649 | 12.0 |
| Sir Gaerfyrddin | 8,202 | 1,112 | 13.6 |
| Abertawe | 10,550 | 1,492 | 14.1 |
| Castell-nedd Port Talbot | 6,173 | 1,042 | 16.9 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 6,441 | 956 | 14.8 |
| Bro Morgannwg | 5,835 | 866 | 14.8 |
| Caerdydd | 18,573 | 3,368 | 18.1 |
| Rhondda, Cynon, Taf | 11,761 | 2,542 | 21.6 |
| Merthyr Tudful | 2,914 | 792 | 27.2 |
| Caerffili | 8,805 | 1,219 | 13.8 |
| Blaenau Gwent | 3,224 | 655 | 20.3 |
| Torfaen | 4,359 | 1,187 | 27.2 |
| Sir Fynwy | 3,607 | 346 | 9.6 |
| Casnewydd | 7,758 | 1,835 | 23.7 |
| **Cymru** | **143,521** | **23,579** | **16.4** |

Ffynhonnell: Adroddiad Monitro Dechrau'n Deg
Llywodraeth Cymru 2012-13

(a) Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn 2012, a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol

(b) Cyfanswm cronnus y plant unigol a gafodd unrhyw wasanaethau Dechrau'n Deg gan ymwelydd iechyd

**Adolygwyd ar 10 Medi 2013.**

**Trefniadau Monitro Cymunedau yn Gyntaf**

*Dyfyniad o'r canllawiau:*

Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau

3.6 Mae Fframwaith Canlyniadau CG wedi'i seilio ar Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau. Model yw hwn sydd bellach yn cael ei ddefnyddio'n helaeth iawn, gan gynnwys yn Llywodraeth Cymru a chan lawer o sefydliadau eraill yng Nghymru. Mae'r model wedi cael ei addasu i'w ddefnyddio gan raglen CG, yn arbennig drwy bwysleisio'r rôl y mae cynnwys y gymuned yn ei chwarae.

3.7 Mae Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau yn defnyddio dwy set o "Ddangosyddion" – hynny yw, ffyrdd o fesur y cynnydd tuag at gyrraedd nodau strategol:

Mae **"Dangosyddion Poblogaeth"** yn ymwneud â phethau sy'n cael effaith fawr ar faterion o bwys sy'n effeithio ar fywydau pobl, er enghraifft, gwell iechyd, gwell addysg neu ragor o swyddi. Mae'r rhain yn bwysig i CG oherwydd bod disgwyl i'r rhaglen gyfrannu'n gadarnhaol at faterion o'r fath. Mae Dangosyddion Poblogaeth wedi cael eu pennu ar gyfer CG ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gysylltiedig â Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Malc). Malc yw'r wybodaeth mae Llywodraeth Cymru yn ei defnyddio i ganfod bod rhai ardaloedd daearyddol yn fwy difreintiedig nag eraill. Fodd bynnag, cydnabyddir bod llawer o ffactorau'n dylanwadu ar y materion hyn felly ni all CG ar ei ben ei hun ysgwyddo cyfrifoldeb llawn dros sut y maent yn newid. Nodir Dangosyddion Poblogaeth CG yn **Atodiad 5**.

Mae **"Dangosyddion Perfformiad"** yn ymdrin â'r gweithgarwch lleol mae CG yn ei gefnogi'n uniongyrchol. Mae Dangosyddion Perfformiad yn golygu bod modd mesur a gwerthuso gweithgarwch a chanlyniadau pob Clwstwr mewn ffordd deg. Wrth i Gynlluniau Cyflawni gael eu sefydlu a'r amrywiaeth o brosiectau ddod yn hysbys, bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu set gyffredin o Ddangosyddion Perfformiad i gael eu defnyddio gan bob un o Glystyrau CG. Bydd y Dangosyddion Perfformiad yn adlewyrchu amrywiaeth y gwaith ym mhob cymuned, ond bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau bod gwaith tebyg a wneir mewn gwahanol Glystyrau'n cael ei fesur yn yr un ffordd cyn belled ag y bo modd, fel y gellir gweld effaith gyffredinol y rhaglen. Drwy fesur a monitro'r dangosyddion hyn, gall pob Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf ddangos y cyfraniad y mae'n ei wneud at Drechu Tlodi.

.

3.8 Mae'n hanfodol bod y gweithgarwch lleol a fesurir gan y Dangosyddion Perfformiad yn cael ei gysylltu'n glir â'r Dangosyddion Poblogaeth, fel y bo modd gweld bod pob Clwstwr yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyrraedd nodau'r rhaglen. Gwneir hynny fel y bo modd asesu a disgrifio effaith rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a'i chyfraniad at drechu tlodi.

.

3.9 Mae staff a gwirfoddolwyr CG wedi dilyn rhaglen sylweddol o hyfforddiant am egwyddorion Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau. Bydd y rhaglen hyfforddiant hon yn parhau yn ystod cyfnod nesaf y rhaglen. Mae rhagor o wybodaeth am Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau ac am Fframwaith Canlyniadau CG i'w gweld yn **Atodiad 5.**

.

Cynlluniau Cyflawni'r Clystyrau

3.10 Rhaid i Gynllun Cyflawni pob Clwstwr allu dangos ei fod yn gwneud cyfraniad cryf at drechu tlodi o dan Fframwaith Canlyniadau newydd CG. Dylai Cynlluniau Cyflawni sicrhau hyn drwy ddatblygu gweithgarwch a phrosiectau lleol ond hefyd drwy gydategu gwasanaethau allweddol a gwella mynediad i'r bobl fwyaf agored i niwed yn yr ardal.

.

3.11 Er bod gan y rhaglen dri Chanlyniad, mae'n bwysig bod Clystyrau CG yn canolbwyntio eu hymdrechion a'u hadnoddau ar y meysydd gwaith hynny lle y teimlant y gallant gael yr effaith fwyaf. Felly mae gan Glystyrau'r opsiwn i ddatblygu Cynlluniau Cyflawni nad ydynt yn canolbwyntio i'r un graddau ar bob un o'r Canlyniadau, ond sydd, yn hytrach, yn canolbwyntio ar 1 neu 2 o'r Canlyniadau sy'n fwyaf perthnasol i'w hardal. Er enghraifft, efallai y bydd pwyslais arbennig ar Iechyd neu Addysg os yw anghenion yr ardal - a ddangosir gan Malc - yn cyfiawnhau gweithredu yn y fath fodd.

.

3.12 Rhaid i bob Cynllun Cyflawni ddangos bod y Clwstwr yn cydweithio'n agos â phartneriaid – gan rannu adnoddau a chyfrifoldeb am benderfyniadau – er mwyn sicrhau cysylltiadau da â chymunedau, â darparwyr gwasanaethau allweddol a'r sectorau gwirfoddol a phreifat. Dylid nodi amrywiaeth o asiantau cyflawni a rhannu adnoddau'n briodol gyda nhw.

3.13 Dylai Rheolwyr Clwstwr sicrhau bod Cynlluniau Cyflawni'n parhau'n gyfredol yn hyn o beth a'u bod yn cael gwybodaeth dda yn gyson am bolisïau sy'n effeithio ar eu gwaith.

.

3.14 Dylai egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol, cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau dynol fod yn sylfaen i bob agwedd ar y Rhaglen, yn enwedig Cynlluniau Cyflawni a Chynlluniau Cynnwys y Gymuned. Mae'r egwyddorion hyn yn cael eu hystyried yn elfennau hanfodol o'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati i drechu tlodi, a dim ond gweithgareddau sy'n gydnaws â pholisïau Llywodraeth Cymru yn hyn o beth y bydd CG yn eu cefnogi.

.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon